

Osian Cleaver - 1804345

BA Technoleg Cerddoriaeth Creadigol

ADAD5004C

Robert Jones

Geiriau: 2280

Cynnig Traethawd

(Dissertation Proposal)

Geiriau Allweddol: Hunaniaeth, Cenedlaetholdeb, Cerddoriaeth Iaith Cymraeg

(Key Words: Identity, Nationalism, Welsh Language Music)

Cyd-destun (Context)

Yn y cynnig yma, byddai'n ymchwilio tri phrif derm sydd yn gysylltiedig â fy mhroffesiwn a diddordebau. Fel Cymro a cherddor, mae gen i ddiddordeb cryf yn Gerddoriaeth Iaith Cymraeg yn ogystal â Chenedlaetholdeb Cymraeg a'u cysylltiadau gyda hunaniaeth yng Nghymru. Yn y traethawd hwn, nid ateb unrhyw gwestiwn mawreddog yw fy mwriad, ond i arddangos fy ymchwil i mewn i Hunaniaeth, Cenedlaetholdeb a Cherddoriaeth Iaith Cymraeg. Byddai'n edrych ar y damcaniaeth hunaniaeth, hanes a dyfodol y symudiad Cenedlaetholdeb yng Nghymru a cherddoriaeth boblogaidd yn yr iaith Cymraeg. Trwy gyflwyno fy ngwaith ymchwil, fy mwriad ydy i ddarganfod unrhyw gysylltiad rhwng y termau, ac erbyn y diwedd yn dewis cwestiwn ar gyfer fy nhraethawd hir.

Hunaniaeth (Identity)

“Mae hunaniaeth yn ffordd o lunio ystyr yn bywydau pobl” - Manuel Castelles

(2006)

Hunaniaeth

Wedi ei diffinio yn y Geiriadur, Hunaniaeth ydy'r “cyflwr o fod yn rhywun neu rywbeth neilltuol” (Geiriadur Prifysgol Cymru., 2020). Yn syml, mae hunaniaeth unigolyn yn gyfuniad o ble maent yn dod, ei diddordebau a'i gymuned. Mae Manuel Castelles, cymdeithaswr o Sbaen, yn sôn bod hunaniaeth wedi ei “adeiladu ar brofiad personol, sydd â chydannau ieithyddol a daearyddol”(2006). Mae hyn yn golygu bod gan bob unigolyn ar draws y byd hunaniaeth a phersonoliaeth unigryw. Yn eu herthygl cyfnodolyn *'The Past, Present and Future of an identity theory'* (2000), mae Sheldon Stryker a Peter Burke yn esbonio bod yna “tri phrif ddefnydd am y term hunaniaeth”; “er mwyn cyfeirio at ddiwylliant pobl”, “cyfeirio at gasgliad neu gategori cymdeithasol” neu gyfeirio at y ffordd bod unigolion “yn glynu wrth y rolau maent yn chwarae mewn cymdeithasau cyfoes gwahaniaethol”(2000).

Mae Peter Burke a Jan Stets, cefnogwyr y 'Damcaniaeth Hunaniaeth' yn sôn bod “hunaniaeth yn nodweddu unigolyn yn ôl eu safle yn y gymdeithas” (2009). Yn eu llyfr *'Identity*

Theory'(2009), mae Burke a Stets yn sôn taw nid y syniad bod person "ond yn cael un hunaniaeth" ydy'r Damcaniaeth Hunaniaeth, ond "y syniad bod gan unigolion nifer o wahanol hunaniaethau"(2009). Mae'r ddwy yn awgrymu taw Hunaniaeth ydy'r "berthynas rhwng yr unigolyn a chymdeithas "(2009). Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Charles Cooley yn y llyfr '*Human Nature and Social Order*'(1902), ble mae Cooley yn nodi bod "Yr unigolyn a chymdeithas yn dwy ochr o'r un geiniog"(1902).

Globaleiddio

Wrth ymchwilio'r term hunaniaeth, gair sydd yn ymddangos yn aml ydy'r term 'Globaleiddio'. Esboniad o'r term ydy canlyniad o'r cynnydd mewn "integreiddio traws wladol a thraws ddiwylliannol"(Al-Rodhan, Stoudmann., 2006). Mae'r term yn cael ei defnyddio er mwyn diffinio'r newid yn ardaloedd ble mae bywyd cymdeithasol yn "croesi...ffiniau cenedlaethol a gwladwriaethol"(Rosow, S.J, George, J., 2014). Mae una llawer o resymau dros y newid yma, yn cynnwys bod gan lawer mwy o bob mynediad i deledu, cerddoriaeth a chyfryngau yn America a gyd dros y byd. Mae Manuel Castelles yn credu bod y diffyg i allu darganfod ei hunaniaeth "yn annog pobl i sefydlu eu hunaniaethau"(Castells, M., 2006). Yn y llyfr 'Globalization in question', mae'r awduron yn awgrymu taw'r ddadl sylfaenol ydy bod "diwylliannau cenedlaethol, economïau cenedlaethol, ffiniau cenedlaethol a thiriogaethau cenedlaethol yn diflannu" (Hirst, P, et al., 2015).

Hunaniaeth Cymraeg

Yng Nghymru, mae'n glir bod yna hunaniaeth Cymraeg cadarn yn bodoli. Yn y cyfnodolyn *'Nations and Nationalism'*, mae Haesly yn sôn bod unigolion Cymraeg yn dangos "balchder yn eu diwylliant" (Haesly, R., 2005) ac yn dathlu bod yn Gymraeg trwy dal gafael ar draddodiadau hanesyddol a cymunedol. Am lawer yng Nghymru, mae bod yn Gymro yn golygu gweiddi at y rygbi neu ganu caneuon traddodiadol. Yn ei llyfr *'blewyttirhwng?'*, mae Sarah Hill yn esbonio bod siarad yr iaith Cymraeg yn rhan fawr o hunaniaeth pobl Cymru, ac yn cael ei dathlu yn aml trwy ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod, dathliad sydd yn amddiffyn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymreig (Hill., 2007). Mae'n bosib bod poblogrwydd traddodiadau Cymraeg wedi lleihau dros y blynyddoedd wrth i'r niferoedd o fewnfudwyr codi ac fel effaith o Globaleiddio. Yn benodol, mae'n bosib fod y rhesymau yma yn gallu esbonio'r dirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, enwedig yn y de.

Cenedlaetholdeb

"Mae'r syniad o genedlaetholdeb yn hawlio bod yna genedl sydd â chymeriad eglur ac arbennig ... gyda'i hunigoliaeth, ei hanes a'i thynged ei hun" -

Hargreaves, J. (2000)

Cenedlaetholdeb

Yn ôl y geiriadur, mae'r term Cenedlaetholdeb yn cyfeirio at "cariad mawr neu rhy fawr o'ch gwlad" ac "dymuniad cenedl i fod yn annibynnol yn wleidyddol"(Cambridge University Press, 2020). Yn y bennod yma byddwn yn ffocysu ar yr ail ddiffiniad, ac yn ymchwilio ei chysylltiad ag hunaniaeth yng Nghymru. Fel mae'r geiriadur yn diffinio, Cenedlaetholdeb ydy pryd mae unigolion yn dymuno am annibyniaeth am eu gwlad. Yn hanesyddol, "Darganfuwyd cenedlaetholdeb lle'r oedd elites brodorol yn ymladd i ddymchwel gweinyddiaethau imperial a threfedigaethol dramor" (Smith, A.D, Smith, A. 2013). Mae yna llawer iawn o ardaloedd dros y byd gyda hanes, traddodiadau a diwylliant eu hun, yn brwydro am annibyniaeth.

Un o brif athronwyr Cenedlaetholdeb ydy'r anthropolegydd cymdeithasol Ernest Gellner. Yn ei lyfr enwog '*Nations and Nationalism*', mae Gellner yn sôn taw "Cenedlaetholdeb sy'n ennyn [engender] cenhedloedd, ac nid y ffordd arall"(1983). Mae Gellner yn diffinio Cenedlaetholdeb fel "theori cyfreithlondeb gwleidyddol, sydd yn mynnu na ddylid torri'r ffiniau ethnig ar draws rhai gwleidyddol"(1983). Athronwr Cenedlaetholdeb pwysig arall i'w nodi ydy John Breuilly, a wnaeth ysgrifennu'r llyfr '*Nationalism and the state*'(1993). Yn y llyfr yma, mae Breuilly yn esbonio bod dadl genedlaetholgar wedi'i hadeiladu ar dri cyflwr:

- "Mae yna genedl sydd â chymeriad eglur a rhyfedd.
- Mae buddiannau a gwerthoedd y genedl yn cael blaenoriaeth dros yr holl fuddiannau a gwerthoedd eraill.

- Rhaid i'r genedl fod mor annibynnol â phosib. Mae hyn fel arfer yn gofyn am o leiaf sicrhau sofraniaeth wleidyddol." (1993)

Enghraifft o symudiad annibyniaeth ydy Catalonia, ardal yng ngogledd Sbaen. Yn ei lyfr am hanes y symudiad *'The rise of Catalan independence: Spain's territorial crisis'* (2017) mae Andrew Dowling yn sôn bod Catalan "rhanbarth hanesyddol gydag ymdeimlad dwys o hunaniaeth genedlaethol a diwylliannol" (Dowling, A., 2017) sydd yn brwydro am statws cenedl. Am flynyddoedd, mae Cenedlaetholwyr yr ardal wedi bod yn ymladd yn galed am annibyniaeth. Mae'n bosib gweld symudiadau annibyniaeth debyg gyd dros y byd, gyda Yr Alban a Chymru yn enghreifftiau cryf.

Cenedlaetholdeb yng Nghymru

Er bod Cymru yn rhan o Brydain Fawr ac yn rhannu border gyda Lloegr, mae ganddo statws gwlad ei hun (Llywodraeth Cymru., 2020). Er hyn, mae Cymru dal yn cael ei rheoli yn bennaf gan y Llywodraeth Brydeinig yn San Steffan. Er bod 650 o aelodau seneddol yn San Steffan, ond 40 sydd yn cynrychioli Cymru. Oherwydd hyn, mae llawer o genedlaetholwyr Cymraeg yn credu bod Cymru ddim yn cael digon o lais yn San Steffan. Yn yr 1920au, fe gododd poblogrwydd Cenedlaetholdeb Cymraeg fel canlyniad o'r rhyfel byd cyntaf a'r chwyldro diwydiannol. Yn 1925 fe ddechreuodd grŵp gwleidyddol newydd o'r enw Plaid Cymru, yn bodoli er mwyn amddiffyn a hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg. (Adamson, D.L., 1991). Erbyn y chwedegau, wnaeth Plaid

Cymru cael mwy o effaith wleidyddol, yn ennill ei chadair seneddol cyntaf yn San Steffan yn 1966. O gwmpas yr amser hwn, dechreuodd grŵp newydd o'r enw Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg, enghraifft arall o fudiad yn ymladd dros yr iaith a diwylliant Cymraeg.

Erbyn 2020, mae yna adfywiad clir o'r symudiad am annibyniaeth dros Gymru. Mae'r symudiad wedi tyfu llawer ar draws y wlad, gyda'r nifer o gefnogwyr Annibyniaeth Cymraeg yn godi o "20% i 40% ers 2017" o fewn Llafur Cymru (Gwalchmai, B., 2019). Rheswm cadarn dros yr adfywiad yma ydy'r dechreuad o grwpiau newydd fel 'Yes Cymru', yn tynnu llawer o sylw at yr achos. Mae'r mudiad 'Yes Cymru' yn "hybu annibyniaeth i Gymru" ac yn gobeithio "gwella'r ffordd mae'n wlad yn cael ei llywodraethu" (Yes Cymru, 2020). Trwy ymgyrchu ar gyfryngau cymdeithasol, a thrwy drefnu gorymdeithiau brotest, mae'r mudiad wedi denu llawer o aelodau newydd ac yn dystiolaeth glir bod yna adfywiad o'r symudiad.

Mae'n bosib bod hunaniaeth yn gyswllt gyda'r nifer o gefnogwyr newydd o'r symudiadau Cenedlaetholdeb Cymraeg ac Annibyniaeth Cymraeg. Mae Haelsy yn credu bod y cynnydd yn y cynhyrchiad o lenyddiaeth, sinema a chelfyddydau Cymraeg yn adlewyrchiad o "bywiogrwydd, creadigrwydd, diddordeb a balchder diweddar yng Nghymru fel cenedl." (Haelsy, R., 2005). Mae hyn yn awgrymu bod fwy o bobl yn adnabod eu hunain fel person Cymraeg, ac o ganlyniad yn teimlo'n gryfach dros y syniad o annibyniaeth am y wlad. Mae penderfyniadau San Steffan, fel 'Brexit' yn rheswm bosib am y cynnydd yma. Er wnaeth Cymru pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n amlwg weld mwy o ddiddordeb yn Annibyniaeth Cymraeg. (Cosslett, R.L., 2019). Mae'n bosib gweld bod hunaniaeth yn cael effaith ar deimladau unigolion ac yn awgrymu bod hunaniaeth yr unigolion yma yn cael effaith ar y mudiad Cenedlaetholdeb Cymraeg.

Cerddoriaeth Iaith Cymraeg

Cerddoriaeth yng Nghymru

Ar draws Cymru, mae yna 'scene' cadarn o fandiau ac artistiaid Cymraeg, er mae cryfder y 'scene' yma wedi mynd a dod dros y blynyddoedd. Mae'r mathau o fandiau yma yn aml yn chwarae cerddoriaeth 'poblogaidd' neu 'pop', sef yng Nghymru yn cyfeirio at roc neu werin (Hell., 2007). Yn ei llyfr *'Blewytirhwng?: The Place Of Welsh Pop Music'* (2007), mae Sarah Hill yn esbonio bod cerddoriaeth boblogaidd wedi moderneiddio'r iaith Gymraeg a wnaeth chwarae rôl yn adfywiad yr iaith. Mae'n bosib gweld bod Cerddoriaeth yn yr iaith Cymraeg wedi newid yn anferthol dros y degawdau diwethaf, yn esblygu fel adlewyrchiad o'r 'scene' Saesneg. Yn y bennod yma bydd tair gwahanol adeg yn cael eu trafod, sef yr 60au, yr 80au a'r presennol, sef y flwyddyn 2020.

Hanes Cerddoriaeth yng Nghymru

Yn y chwedegau a'r saithdegau, wrth i ymgyrch Cymdeithas Yr Iaith Cymraeg tyfu, wnaeth fandiau ac artistiaid Cymraeg dechrau ymddangos o bobman. Roedd artistiaid fel Meic Stevens, Edward H. Dafis. a Dafydd Iwan ond yn nifer fach o'r bandiau a wnaeth ymddangos yn yr adeg yma. Yn aml, wnaeth yr artistiaid yma canu gyda themâu am yr iaith Cymraeg ac am Gymru fel

gwlad. Yn ei gan 'Carlo'(1969), mae Dafydd Iwan yn canu cân doniol am Charles, Tywysog Cymru, a sut nad yw o'n Gymro. Llwyddiant mwyaf Dafydd Iwan oedd ei gan 'Yma O Hyd'(1983), sydd yn mynnu bod Y Cymry gallu oresgyn unrhyw beth. Mae'r can wedi dod i fod yn fath o anthem answyddogol am siaradwyr Cymraeg. Wnaeth y can ennill hyd yn oed fwy o lwyddiant yn ddiweddar, yn cyrraedd rhif 1 yn y siart iTunes yn Ionawr 2020 (BBC, 2020)

Yn yr wythdegau, wnaeth cerddoriaeth yng Nghymru adlewyrchu'r symudiad cerddoriaeth 'punk' newydd a ddechreuodd tyfu yn Lloegr. Ymddangosodd nifer o fandiau iaith Cymraeg fel Anrhefn, Datblygu a'r Cyrff gweld llawer o lwyddiant yng Nghymru, a hyd yn oed llwyddiant ym Mhrydain. Wedi ffurfio yn 1982, wnaeth Anrhefn gweld llawer o lwyddiant arwyddo i gwmni recordiau rhyngwladol, chwarae dros Ewrop i gyd a recordio sesiynau gyda'r DJ enwog 'John Peel' (BBC., 2005). Ei gan fwyaf adnabyddus ydy'r cân 'Rhedeg i Paris'(Anrhefn., 1990) a ddaeth yn anthem iaith Cymraeg ar gyfer cystadleuaeth pêl-droed 'Yr Euros' yn 2016. Wnaeth Datblygu hefyd weld bach o lwyddiant, yn cael ei arwyddo i recordiau Anrhefn a hefyd yn ymddangos ar sesiynau John Peel. Roedd y bandiau yma yn enghraifft glir bod bandiau iaith Cymraeg gallu fod yn boblogaidd a llwyddiannus.

Adfywiad Cerddoriaeth Cymraeg

Ers yr wythdegau, ac fel canlyn o lwyddiant y bandiau yma, mae nifer o fandiau iaith Cymraeg yn gweld llwyddiant yng Nghymru a pellach. Mae 'Super Furry Animals' a 'Gorky's Zygotic MynCi' yn dwy enghraifft cryf o fandiau Cymraeg a wnaeth gweld llwyddiant dros Gymru,

Prydain ac Ewrop. Wnaeth prif ganwr y Super Furry Animals, Gruff Rhys, mynd ymlaen i gael llwyddiant ar ben ei hun, yn canu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn 2004 wnaeth Gruff Rhys cyhoeddi albwm iaith Gymraeg llwyddiannus o'r enw 'Yr Atal Genhedlaeth (2004).

Mae hefyd yn bosib gweld nifer fawr o fandiau Gymraeg newydd sydd wedi ymddangos dros y degawd diwethaf. Yn 2015, fe ddechreuodd y grŵp 'Adwaith' sydd wedi gweld llwyddiant gyda'i albwm 'Melyn'(2018) wedi ei rhyddhau ar recordiau Libertino. Band arall sydd yn dechrau gweld llwyddiant yng Nghymru ydy Los Blancos, enghraifft arall o'r dalent mai Recordiau Libertino yn cynhyrchu. Gyda'u halbwm newydd 'Sbwriel Gwyn' (2019), mae'r band wedi gweld cynnydd yn eu dilynwyr ac yn siŵr i gael dyfodol llwyddiannus iawn. Band iaith Gymraeg arall i wneud effaith ar y 'scene' Gymraeg ydy'r deuawd 'Alffa', a wnaeth torri record Spotify o'r nifer mwyaf o 'streams' am unrhyw fand iaith Gymraeg, gyda dros dair miliwn ar eu caneuon 'Gwenwyn'(2019) a 'Pla'(2019)(Stephens, Huw, 2019).

Cyd-destunoli Cwestiwn

I gloi'r cynnig, rydym wedi ymchwilio tair thema sef Hunaniaeth, Cenedlaetholdeb a Cherddoriaeth iaith Gymraeg. Trwy edrych ar yr ymchwil, mae'n amlwg bod yna cysylltiadau clir rhwng y themâu, a bod nifer o is-themâu a chwestiynau pellach yn cael eu codi fel canlyniad. Wrth ymchwilio hunaniaeth, cododd yr is-thema 'Globaleiddio' a chododd y cwestiynau 'Sut effaith ydy Globaleiddio wedi cael ar hunaniaeth yng Nghymru?' a 'Ydy'r syniad o 'cenedl' yn dechrau diflannu?'. Wrth ymchwilio Cenedlaetholdeb, cododd yr is-thema o 'Cenedlaetholdeb Cymraeg', yn arwain at gwestiynau pellach; 'Sut effaith ydy penderfyniadau Prydeinig fel 'Brexit'

wedi cael ar y symudiad Cenedlaetholdeb Cymraeg?', 'A oes cysylltiad rhwng cenedlaetholdeb a hunaniaeth?'. Yn olaf, wrth ymchwilio Cerddoriaeth Cymraeg, wnaeth themâu o Gymreictod codi yn aml, felly cododd y cwestiwn 'Sut ydy Cerddoriaeth Cymraeg wedi effeithio'r symudiad Cenedlaetholdeb Cymraeg?'. Fel canlyniad o'r cwestiynau a thermau yma wnaeth codi, wnaeth hyn arwain at y penderfyniad i ddefnyddio'r cwestiwn isod ar gyfer fy nhraethawd.

Sut ydy'r adfywiad o Gerddoriaeth Iaith Gymraeg wedi dylanwadu ar Hunaniaeth yng Nghymru ac oes gysylltiad â'r cynnydd ym mhoblogrwydd Cenedlaetholdeb Cymraeg?

(How has the revival of Welsh Language Music influenced the Welsh Identity, and is this connected to the rise of Welsh Nationalism?)

Bibliography

Llyfrau/Books

- Adamson, D.L. (1991) *Class, ideology and the nation: a theory of Welsh nationalism.*, Cardiff: University of Wales Press.
- Betts, C. (1976). *Culture in crisis: the future of the Welsh language*, Wirral: Ffynnon Press.
- Breuilly, J. (1993). *Nationalism and the State*. Manchester University Press.
- Burke P & Stets, J. (2009). *Identity theory*, New York; Oxford: Oxford University Press.
- Cooley, Charles H. (1902) *Human nature and social order*. New York: Scribner
- Davies, C.A (1989) *Welsh nationalism in the twentieth century: the ethnic option and the modern state.*, New York: London: Praeger.
- Dowling, A. (2017) *The rise of Catalan independence: Spain's territorial crisis*. UK; New York; Routledge.
- Gellner, E. (1983). *Nations and nationalism*. USA: Cornell University Press.
- Hargreaves, J, (2000) *Freedom for Catalonia?: Catalan Nationalism, Spanish identity and the Barcelona olympic games*. Cambridge University Press.
- Hill, S. (2007). *Blerwytirhwng?: the place of Welsh pop music*. England; USA: Ashgate Publishing, Ltd.
- Hirst, P., Thompson, G. and Bromley, S., 2015. *Globalization in question*. John Wiley & Sons.
- Owens, David (2000) *Cerys, Catatonia and The Rise of Welsh Pop*. UK: Random House.

- Rosow, S.J. and George, J. (2014) Globalization and democracy. London: Rowman & Littlefield.
- Smith, A.D. and Smith, A. (2013) *Nationalism and modernism*. London; New York: Routledge.

Journals/Cyfnodolion

- Castells, M. (2006) Globalisation and identity. *Transfer Journal of Contemporary Culture*, 1, 56-67
- Haesly, R. (2005) Identifying Scotland And Wales: types of Scottish and Welsh National Identities. *Nations and Nationalism*. 11(2), 243-263
- Stryker, S., & Burke, P. (2000). The Past, Present, and Future of an Identity Theory. *Social Psychology Quarterly*, 63(4), 284-297.

Papurau/Papers

- Al-Rodhan, N.R. and Stoudmann, G, (2006) Definitions of globalization: A comprehensive overview and a proposed definition. *Program on the Geopolitical Implications of Globalization and Transnational Security* . [Ar lein] [Darllenwyd ar 28/04/20]
<https://tinyurl.com/y8ssugzw>

Ar-Lein/Online

- BBC (2005) 'Yr Anrhefn', *Cymru Cerddoriaeth*, BBC [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20]
<https://www.bbc.co.uk/cymru/cerddoriaeth/artistiaid/anhrefn.shtml>
- BBC (2020) 'Welsh Language Song Yma O Hyd Tops iTunes UK Song Chart', *BBC News* [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20] <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51083459>
- Cambridge University Press, (2020). Meaning of nationalism in English, Cambridge Dictionary. [Ar Lein] [Darllenwyd ar 07/04/20]
<https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/nationalism>
- Cosslett, R.L (2019) 'Brexit is giving Welsh nationalism a new popular appeal', *The Guardian* [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20]
<https://www.theguardian.com/commentisfree/2019/sep/28/wales-nationalism-brexit-welsh-language>
- Geiriadur Prifysgol Cymru (2020), ' Hunaniaeth'. *Geiriadur Prifysgol Cymru* [Ar lein] [Darllenwyd ar 28/04/20] <http://welsh-dictionary.ac.uk/gpc/gpc.html?hunaniaeth>
- Gwalchmai, Ben. (2019) Labour and Welsh independence, *New Socialist* [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20] <https://newsocialist.org.uk/labour-and-welsh-independence/>
- Jones, Elin. (2020). Wedi cyfweld gan y BBC, Welsh assembly renamed Senedd Cymru/Welsh Parliament, *BBC News*, [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20]
<https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-52544137>

- Llywodraeth Cymru (2020). Is Wales a country? Frequently Asked Questions [Ar Lein]
[Darllenwyd a 07/04/2020] https://www.wales.com/faqs#Question_11
- Stephens, Huw (2019) 'The Rise and Rise of Welsh Pop Music', *BBC Wales News* [Ar lein]
[Darllenwyd ar 10/05/20] <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-49472723>
- YesCymru (2020) *AMDANOM NI* [Ar lein] [Darllenwyd ar 10/05/20]
<https://cy.yes.cymru/about>

Disgyddiaeth

- Adwaith (2018) *Melyn* [Albwm] Recordiau Libertino, Cymru.
- Alffa (2019) 'Gwenwyn', *Rhyddid O'r Cysgodion Gwenwynig* [Albwm] Recordiau Côsh, Cymru.
- Anrhefn (1990) 'Rhedeg I Paris', *Rhedeg i Paris* [Albwm] Crai, Cymru.
- Dafydd Iwan, (1969). 'Carlo', *Carlo/ Y Dyn Pwysig* [Albwm] Welsh Teldisc, Cymru.
- Dafydd Iwan, Ar Log, (1983). 'Yma o hyd', *Yma O Hyd* [Albwm] Sain, Cymru.
- Gruff Rhys (2004) *Yr Atal Genhedlaeth* [Albwm] Placid Casual Recordings, UK.
- Los Blancos (2019) *Sbwriel Gwyn* [Albwm] Recordiau Libertino, Cymru.
- Meic Stevens (1968) 'Tryweryn'. *Mike Stevens* [Albwm] Wren, Cymru.